

# Mapiau Cymdeithasol Teithiau Cerdded Cynllunwyr Ifanc Cymru

- Pontypridd -

Dilynwch daith o amgylch Pontypridd sy'n tynnu sylw at rai o'r lleoliadau diddorol yn yr ardal yn ogystal â rhai o'r tirnodau pwysig o ran rhinwedd cynllunio.


Mae Cynllunwyr Ifanc Cymru wedi llunio'r daith gerdded hon er mwyn ychwanegu gweithgaredd cymdeithasol at ein harfau yn ystod y pandemig (ac wedi hynny) a'n hannog ni i gyd i fynd allan ac edrych ar y cyfoeth sydd i'w weld mewn rhai o'n hardaloedd lleol.

## Y Print Mân

Wrth fynd ar y daith gerdded hon, gofalwch am eich diogelwch personol a chadwch o fewn unrhyw gyfyngiadau COVID lleol.

The image features a teal background with a pattern of white dots and abstract, light blue shapes. The dots are arranged in clusters, and the shapes are soft-edged and semi-transparent. The overall aesthetic is clean and modern.

Pontypridd



1. Amgueddfa Pontypridd Museum
2. Llyfrgell Pontypridd Library
3. Yr Hen Bont / The Old Bridge
4. Parc Coffa Ynysangharad / War Memorial Park
5. Cofeb James Memorial
6. Dram Glo / Coal Dram
7. Lido Ponty
8. Freddie Welsh
9. Yr Orsaf Drenau / The Railway Station
10. Capel Sardis / Sardis Chapel
11. Plac James Plaque
12. Eglwys Santes Catrin / St Catherine's Church
13. Tŷ Gelliwastad House
14. Canolfan Gelf y Miwni / Muni Arts Centre
15. Taff Street a'r Ffynnon / Taff Street and the Fountain
16. Y Farchnad / The Market

# Taflen Ffeithiau

1. Capel Tabernacl oedd adeilad yr amgueddfa, a adeiladwyd ym 1861 yn ôl dyluniad y gweinidog, Edward Roberts. Fe'i hailadeiladwyd ym 1910, ac mae nenfwd cain a gwydr lliw art nouveau y tu mewn. Mae arddangosfa barhaol yma o hanes y dref.
2. Mae'r Llyfrgell yn rhan o waith ailddatblygu Llys Cadwyn sy'n gynllun defnydd cymysg sy'n cynnwys 10,700 metr sgwâr o swyddfydd, 2,400 metr sgwâr o gyfleusterau cymunedol a 400 metr sgwâr o le ar gyfer caffi a bwyty. Mae'n elfen fawr o adfywio canol tref Pontypridd ar safle a fu'n ddiffaith ers blynyddoedd lawer. Cymeradwywyd Llys Cadwyn yn fawr yng Ngwobrau RTPi Cymru 2020 ar gyfer Rhagoriaeth Cynllunio.
3. Cwblhawyd yr hen bont ym 1756, yn dilyn tri ymgais a fethodd. Roedd y gyntaf yn bont gonfensiynol â thair arc, ond cafodd ei difa o fewn dwy flynedd wrth i'r afon orlifo. Methodd y ddau ymgais nesaf hefyd i adeilad pont a oedd yn rhychwantu'r afon gyfan. Roedd y cynllun y bedwaredd bont yn cynnwys tri thwll cylch trwy'r gwaith carreg ar ddwy ochr y bont, gan leihau pwysau'r adeiledd yn fawr. Mae'r bont yn dal i sefyll hyd heddiw.
4. Fe'i sefydlwyd yn Barc Coffa Rhyfel ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, ac fe'i hariannwyd gan roddion y cyhoedd.
5. Mae Cofeb James yn coffáu Evan a James James, cyfansoddwyr anthem genedlaethol Cymru 'Hen Wlad fy Nhadau'. Mae'r cerfluniau yn cynrychioli Cerddoriaeth a Barddoniaeth.
6. Yn yr ardd flodau suddedig, mae'r cart glo yn cydnabod cyfraniad ariannol pwysig y glowyr i greu'r parc.
7. Adeiladwyd Lido Ponty yn wreiddiol ym 1927 ag arddull a oedd yn nodweddiadol o'r cyfnod. Hwn yw lido cenedlaethol Cymru. Rhoddwyd canmoliaeth fawr i'r Lido wedi'i adnewyddu yng Ngwobrau Cynllunio Cymru 2016.
8. Ar y wal ar ddechrau Heol Sardis mae plac glas yn cofio Freddie Welsh, a oedd yn bencampwr paffio pwysau ysgafn y byd o 1914 i 1917 a'r unig ddyn a anwyd ym Mhontypridd i ennill teitl paffio y byd.
9. Mae'r dyffryn cul yn ei gwneud yn amhosibl adeiladu platfformau rheilffordd ochr yn ochr â'i gilydd, felly adeiladwyd ynys platfform sengl â sawl arhosfan yn ddigon hir i ganiatáu i sawl trên ei ddefnyddio ar yr un pryd. Y platfform hwn oedd yr hiraf ym Mhrydain am flynyddoedd lawer.
10. Adeiladwyd Capel yr Annibynwyr Sardis ym 1834, ac fe'i hailadeiladwyd ym 1852 a'i addasu ym 1885. Mae'r capel presennol, dyddiedig 1852, wedi'i adeiladu ag arddull Pengrwn Syml o'r math mynediad talcen. Erbyn hyn mae Sardis yn adeilad Rhestredig Gradd II oherwydd diddordeb pensaernïol canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar y tu allan a'r tu mewn cain o ddechrau'r ugeinfed ganrif.
11. Yn uchel ar wal bellaf yr adeilad cyntaf ar draws yr afon mae plac marmor du. Mae hwn yn nodi safle ffatri wlân fach yr oedd Evan James yn berchennog arni a'i dŷ drws nesaf iddi. Yn y lle hwn yr oedd ef a'i fab y byw pan wnaethon nhw gyfansoddi Anthem Genedlaethol Cymru 'Hen Wlad fy Nhadau ym 1856.
12. Mae Eglwys St Catherine ar y tu allan wedi'i adeiladu o dywodfaen lleol â cherrig Caerfaddon i'w addurno, ond mae'r tu mewn i gyferbynnu â hyn wedi'i adeiladu o frics coch a du. Mae ganddi wydr lliw cain, yn arbennig cyfres o ffenestri yn ystlys y gogledd sy'n dangos hanes cynnar Cristnogaeth yng Nghymru.
13. Yn bellach yn ôl o'r ffordd ar y chwith mae Sefydliad Gelliwastad, Tŷ Gelliwastad yn flaenorol. Hwn yw'r adeilad hynaf yng nghanol y dref.
14. Mae Canolfan Gelfyddydau'r Muni yn adeilad nodweddiadol eglwysig o droad y ganrif, wedi'i hadeiladu o dywodfaen carreg cyrsiog ag addurniadau o faen nadd, to serth o lechi Cymreig, tŵr a meindwr dros y brif fynedfa.
15. Mae cynllun y ffynnon yn cynnwys clymwaith Celtaidd sy'n deillio o groesau hynafol Bro Morgannwg.
16. Mae marchnad Pontypridd yn fan amlwg yn y dref ac mae Cwmni Marchnad Pontypridd wedi bodoli ers 1877.